OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 792

# Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2000

**Cymhwyso, enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru'n unig, yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2000 a deaunt i rym ar 1 Ebrill 2000.

(1) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriadau at reoliad â rhif, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, yn golygu'r rheoliad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) 1993(**1**).

(**1**) O.S. 1993/291; O.S. 1994/1809 a 1995/609 yw'r offerynnau diwygio perthnasol.